Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher yr 28ain o Hydref 2009 am 7.30yh.

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Y Cyng. Colin Jenkins, Y Cyng. Roy Davies, Y Cyng. Hugh Towns, Y Cyng. Ieuan Gwyn, Y Cyng. Julia Jones, Y Cyng. Edward Thomas, Y Cyng. Chris Parish, Y Cyng. Ros Bellamy, Y Cyng. Richard Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau : Y Cyng. Fran Murphy, Y Cyng. Dawn Wallace

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Anfonodd y SCCH Roger Anthony adroddiad i mewn, a ddarllenwyd gan y Cyng. Colin Jenkins.
Cofnodwyd y cafwyd un ymosodiad a thri lladrad yn ystod y mis. Cafwyd adroddiad o fyrgleriaeth mewn llety ar rent. Arestiwyd un person a gyfaddefodd mai ef oedd yn gyfrifol am y drosedd.
Fe wnaeth Heddlu Llandeilo weithredu tair gwarant cyffuriau yn ystod y mis mewn tri thŷ rhent yn y Dref. Profodd un yn nacaol, ond roedd dau'n bositif, ac atafaelwyd canabis; o ganlyniad cafodd tenantiaid dau adeilad eu troi allan o'u fflatiau. Yn dilyn cynnydd mewn gweithredoedd stopio a gwirio, cafodd pedwar person eu harestio am eu bod ym meddiant canabis, aethpwyd ati i chwilio cartref un person ac atafaelwyd planhigion canabis yno.
Byddai'r Heddlu'n gweithio gyda phobl ifanc i'w perswadio i beidio ag ymddwyn yn wrthgymdeithasol ar Ŵyl Calan Gaeaf.

Cof 174 / Hyd /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.
Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Ieuan Jones longyfarch y Faeres ar ymweliad y Tywysog Charles i'r Dref. Dywedodd bod y dirywiad yn yr economi'n effeithio ar yr incwm a dderbyniwyd gan y cyngor Sir. Byddai dyraniad LlCC o arian ar gyfer 2010 yn dangos cynnydd o 1.8% yn unig, o gymharu â 3.4% ar gyfer 2009.
Dywedodd y CS Jones fod wal yr Eglwys yn gyfrifoldeb i'r perchenogion, yr Eglwys. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost o atgyweirio cloc yr Eglwys yn dod i gyfanswm o £300 ac roedd y CS Jones yn barod i gyflwyno hwn i Phil Lumley o CSG i'w dalu, ar yr amod ei fod yn derbyn dadansoddiad manwl.
Adroddodd y Cynghorydd Sir Jones fod Llywodraethwyr ysgol Tregib wedi rhoi caniatâd i Mrs Griffiths i fod yn brifathrawes ar Ysgol Pantycelyn ac Ysgol Tregib.

Cof 175/ Hyd/ 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 23ain o Fedi 2009, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 14eg o Hydref 2009, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.

Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 14eg o Hydref 2009, fel cofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.

Cynigwyd gan y Cyng. Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 176 / Hyd/ 09 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Parthed â Cof 150 / Medi / 09 (5). Gofynnwyd i'r Clerc i drefnu i gynrychiolydd o Fenter Cwm Gwendraeth i siarad â'r cyngor mewn perthynas â'r prosiect di-garbon.

Parthed â Cof 150 / Medi / 09.(3). Gofynnwyd i'r Clerc i holi CSG mewn perthynas ag enwebiad y Cyng. Edward Thomas fel llywodraethwr ar Ysgol GS Llandeilo.

Parthed â Cof 154 / Medi / 09. Gweithgor i baratoi adroddiad ar ardaloedd chwarae a hamdden yn Llandeilo. Cynigwyd y Cyng. Ros Bellamy a'r Cyng. Fran Murphy gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Parthed â Cof 164A/Hyd/09. Cynigodd y Cyng. Roy Davies bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Mr William Wilkins, am ei gymorth, a llythyrau i Swyddogion y ddau Gapel a gytunodd i'w hadeiladau i gael eu defnyddio ar gyfer y prosiect Drws Agored, ynghyd â rhodd o £50 yr un. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Parthed â Cof 165 / Hyd / 09. Nid oedd y Swyddog Blaen Cynllunio Neil Bateman wedi medru cwrdd â'r Cyngor mewn perthynas â Datblygiad y Gogledd sy'n arfaethedig. Fodd bynnag, fe anfonodd ateb ysgrifenedig i ymholiadau'r Cyngor.

Parthed â Cof 170 / Hyd /09. Gofynnodd Mr Christopher Plummer a ellid gosod eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid, i drafod polisi strategol mewn perthynas â chynnal a chadw Neuadd y Sir.

Cof 177 / Hyd / 09 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. SA Marketing - Parthed â dosbarthu taflenni llwybr y dref. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad dosbarthu, a chytunodd y byddai anfoneb yn cael ei basio i'r Pwyllgor Cyllid i'w dalu. Buasai'r Cyngor yn ystyried cylchrediad 2010 fis Ionawr nesaf.
2. Mr Clive Furr – Parthed â chostau mynediad i Dŷ Newton. Byddai'r Clerc yn anfon y llythyr i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyda chefnogaeth y Cyngor.
3. Dr Townsley- Hughes – Parthed ag anfoneb am drefnu'r prosiect Diwrnod Agored.
   Buasai'r Clerc yn cysylltu ag ef i ofyn am anfoneb swyddogol oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Ddinesig am £30
4. Y Swyddog Cyllid a'r Cyng. Ros Bellamy ar e-bost. Parthed ag adroddiad yr Archwilydd. Cytunwyd y byddai Cyfrifoldebau Ariannol Cynghorwyr yn cael ei roi ar Agenda gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.
5. Adran Gynllunio CSG. Caniatâd i gwympo coed ar randir Heol Cilgant.
6. Jenna Fulford - Parthed â Carmarthenshire Life. Byddai'r Faeres yn cysylltu â hi.

Cof 178 / Hyd/ 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Anne Williams parthed â chloc yr Eglwys. Nodwyd.
2. Catherine Williams , Clwb Ffermwyr Ifanc, yn cytuno i stiwardio'r noson cynnau goleuadau'r Nadolig. Nodwyd.

3. Ysgol Tregib – Rhoddwyd gwobr gymunedol i'r prosiect ar yr elusen Action Aid.

Cof 179 / Hyd /09 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

CGGC (Gwein Hydref 2009)	£	34.79
CGGC (ychwanegiad i'r gyflogres – taliad oriau ychwanegol)	£	299.12
Charles B Sams (Neuadd y Sir– larymau tân newydd)	£	4,347.00
Kimbolton Fireworks Ltd.	£	1,636.99
Pains Fireworks Ltd	£	1,736.75
Des Davies (helmedi diogelwch i'r arddangosfa tân gwyllt)	£	139.96
Charles Sams (synhwyrydd Neuadd y Sir)	£	92.00
JW Thomas (Posteri tân gwyllt)	£	57.50
Charles Sams (Goleuadau argyfwng yn Neuadd y Sir)	£	1,651.40
Lloyds British Testing Ltd	£	825.70

Pasiwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

2. Oherwydd bod Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed wedi cytuno i gyfrannu at y gost o osod larymau tân newydd, fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau newydd, cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn, ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas, bod anfoneb o £1,000 yn cael ei anfon i'r Ymddiriedolaeth, fel eu cyfraniad at y gost gyffredinol. Roedd pawb o blaid.
3. Gofynnodd y Swyddog Cyllid i'r graddfeydd cyflog newydd ar gyfer Staff i gael eu gosod ar Agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

Cof 180 / Hyd / 09 Trawsgludiaeth a Phriffyrdd

Adroddodd y Cyng. Colin Jenkins am y cyfarfod a fynychodd yn ddiweddar gyda'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Richard Wallace a John McEvoy rheolwr traffig CSG, mewn perthynas â pharcio i drigolion. Cadarnhawyd y byddai'r cynllun cychwynnol yn mynd yn ei flaen, gyda lleoedd parcio'n cael eu marcio mewn amrywiol strydoedd, yn cynnwys Teras yr Abaty a Stryd yr Eglwys. Byddai'n rhaid codi'r mater o osod llinellau melyn gydag adran gyfreithiol CSG. Os caiff ei gymeradwyo, yna bydd hysbysiadau'n cael eu hanfon i'r trigolion. Byddai'r cyfyngiadau parcio'n gymwys rhwng 9-6yh.

Cof 181 / Hyd / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor ar yr holl faterion technegol. Adroddodd Mr Davies fod nifer o dasgau cynnal a chadw brys wedi cael eu gwneud yn Neuadd y Sir.
Gosodwyd goleuadau Nadolig ar hyd rhannau cil o Stryd Rhosmaen. Diolchodd y Faeres i Mr Davies, y Cyng. Edward Thomas a'r Cyng. Colin Jenkins am eu cymorth.

Cof 182 / Hyd / 09 I drafod y Datblygiad Preswyl sy'n Arfaethedig yn y Northern Quarter

Yn dilyn trafodaeth gwnaethpwyd y cynnig canlynol gan y Cyng. Roy Davies :-
Tra bod y Cyngor Tref yn derbyn bod yn rhaid i beth datblygu i ddigwydd ar y datblygiad Northern Quarter yn Llandeilo, a'i fod yn croesawu'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r cynllun datblygu sy'n arfaethedig, nid yw'r Cyngor yn medru ei gymeradwyo am

y rhesymau a amlinellwyd yn y ddogfen gysylltiedig. Eiliwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
Gofynnwyd i'r Clerc i fynd ag ymateb y Cyngor yn bersonol i'r Adran Gynllunio ac i sicrhau ei fod yn derbyn llofnod fel prawf eu bod wedi ei dderbyn.
Diolchwyd i'r Cyng. Roy Davies am ei holl waith wrth baratoi arsylwadau'r Cyngor ar y datblygiad sy'n arfaethedig.

Cof 183 / Hyd/ 09 Adroddiad y Faeres.
Rhoddodd y Cyng. Charlotte Leadbeater restr o'r achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis.

Cof 184 / Hyd / 09 Adroddiadau Eraill

i) Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Adroddodd y Cyng Roy Davies y byddai'n cwrdd gyda Tim Martin o Dyfed Tree Care, er mwyn cael amcan o gostau'r prosiect.

ii) Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt

Dywedodd y Cyng. Colin Jenkins bod yr holl drefniadau mewn lle ar gyfer y digwyddiad.
Cynigodd y dylid ad-dalu treuliau'r tri pherson a enwebwyd i fynychu'r hyfforddiant diogelwch Tân Gwyllt. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y dylid rhoi rhoddion i Ambiwlans Sant Ioan, y Ford Gron, Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo ac Adran Iau Clwb Rygbi Llandeilo am eu cymorth yn ystod y digwyddiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

iii) Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
Byddai cyfarfod nesaf y grŵp Goleuadau Nadolig yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth y 3ydd o Dachwedd 2009. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas y dylai'r gwobrau ar gyfer y gystadleuaeth ffenest siop fod fel a ganlyn:
1af - £ 50, 2il - £30, 3ydd - £20. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Colin Jenkins.
Cafwyd cais gan y Clerc i ddosbarthu taflenni i'r siopau i gyd. Dywedodd y Faeres y byddai hi'n beirniadu'r gystadleuaeth ar Ddydd Mawrth yr 17eg o Dachwedd.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas y dylid rhoddi rhoddion i'r Ford Gron, Band Arian Rhydaman, Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo a Chantorion Teilo am eu cymorth gyda'r digwyddiad.

Cof 185 / Hyd /09 Materion Cynllunio sy'n Weddill i'w Penderfynu
E/21826 Unedau gofal hunangynhwysol a fflat rheolwr arfaethedig, mewn cysylltiad â'r cartref gofal yn 6, Heol Newydd

Sylw : Dim gwrthwynebiad ond, gan ei fod yn ardal gadwraeth, yna dylid dilyn y rheoliadau mewn perthynas â hyn.

Cof 186/Hyd /09 Eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Atgoffwyd y Cynghorwyr am y gwasanaeth Coffa a gynhelir ar Ddydd Sul yr 8fed o Dachwedd.

Byddai Derbyniad Nadolig y Faeres yn cael ei gynnal yn yr Angel Inn ar nos Wener yr 11eg o Ragfyr. Dywedodd y Faeres ei bod yn dymuno i'r Cyngor cyfan a'r Staff i dynnu ffotograff grŵp cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar y 25ain o Dachwedd am 7yh.
Dywedodd y Cyng. Leadbeater ei bod yn ystyried trefnu Dawns Elusennol yn y Gwanwyn, i godi arian i'w helusennau enwebedig.
Dywedodd y Cyng. Ieuan Gwyn y dylid cychwyn ar yr adolygiad o rent y daliwr prydles, fel y gellid ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2010.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45yh.